



Y Bwrdd – Telerau cyfrifoldeb

1. Cyfrifoldebau

Aelodau o Cyfoeth Naturiol Cymru, y Bwrdd, yn gyfrifol ar y cyd i Lywodraeth Cymru ar gyfer sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn:

- a) cael eu cynnal yn gynaliadwy,
- (b) cael eu gwella'n gynaliadwy, a
- (c) cael eu defnyddio mewn ffordd gynaliadwy.

2. Aelodaeth

^[1]Mae Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys-

- (a) Cadeirydd a benodir gan Weinidogion Cymru;
- (b) nid llai na 5 ac nid mwy nag 11 o Aelodau eraill a benodwyd gan Weinidogion Cymru;
- (c) y Prif Weithredwr, a
- (d) nid llai na 2 na mwy na 4 o Aelodau eraill a benodir gan y Corff

Bwrdd presennol dan arweiniad ei Gadeirydd, ac yn gyfrifol am ddatblygu a chymeradwyo strategaeth hirdymor ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn bodloni ei gyfrifoldebau a dyletswyddau o dan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (swyddogaethau) 2013.

Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn cynnal cofnod o aelodaeth bresennol y Bwrdd. Mae aelodau o'r tîm gweithredol hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd.

Mae gwahoddiad agored i aelodau'r tîm gweithredol i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd. Gall aelodau'r tîm gweithredol, gyda chymeradwyaeth y Cadeirydd:

- enwebu Dirprwy i fynd i gyfarfod Bwrdd yn ei absenoldeb ef/ hi ac
- gwahodd swyddogion priodol i gynorthwyo yn y cyflwyniad o'r papurau i'r Bwrdd

Ymrwymiad amser ar gyfer aelodau'r Bwrdd: mae'r ymrwymiad amser cyflogedig yn uchafswm o 3 diwrnod y mis

Ymrwymiad amser ar gyfer Cadeirydd: mae'r ymrwymiad amser cyflogedig yn uchafswm o 5 diwrnod y mis

3. Cworwm

Ni wneir unrhyw benderfyniad mewn cyfarfod Bwrdd oni bai bod o leiaf 5 aelod o'r Bwrdd yn bresennol.

4. Cynnal busnes rhwng cyfarfodydd

Mae'r Cadeirydd yn cynnal awdurdod dirprwyedig i gynnal busnes brys rhwng cyfarfodydd. Wrth wneud hynny, rhaid iddynt weithredu ar y cyd â'r Prif Weithredwr ac ar gyngor swyddogion priodol eraill ac adrodd ar unrhyw fusnes a gynhelir yng nghyfarfod llawn nesaf y Bwrdd

Caniateir dirprwyo awdurdod i'r Cadeirydd i weithredu ar y cyd ag unrhyw aelodau eraill y Bwrdd (byddai hyn yn cynnwys y Prif Weithredwr fel arfer) i gynnal busnes penodol ar ran y Bwrdd. Unrhyw fusnes a gynhelir yn cael eu hysbysu yng nghyfarfod llawn nesaf y Bwrdd.

5. Treuliau

Bydd ad-dalu costau rhesymol ar gyfer busnes y Bwrdd, yn unol â chanllawiau rhagnodedig a gweithdrefnau.

6. Cyfarfod y Bwrdd

Cynhelir cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd ledled Cymru yn ystod y flwyddyn, ar amlder a ystyrir yn briodol gan y Cadeirydd mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, a chytunwyd gan y Bwrdd. Yn ogystal, bydd y Bwrdd yn cyfarfod yn breifat i gael eu briffio a rhoi mewnbyn ar ddatblygiad y materion a gaiff eu hystyried yn ffurfiol gan y Bwrdd maes o law.

7. Polisi yr iaith Gymraeg

Bydd y Bwrdd yn glynu wrth y polisi iaith Gymraeg ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru.

8. Mynediad i wybodaeth

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymrwmo i fod yn agored gyda'r wybodaeth y mae'n ei dal, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi mabwysiadu ac yn cynnal cynllun cyhoeddi sy'n amlinellu'r dosbarthiadau o wybodaeth y mae'n eu cyhoeddi neu'n bwriadu eu cyhoeddi.

Ystyrir pob cais am wybodaeth a gedwir gan Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Diogelu Data 1998

9. Trefn busnes – Bwrdd a chyfarfodydd is-bwyllgor

Dilynir trefn busnes safonol gan y Bwrdd a'i is-bwyllgorau

- Cofnodi enwau'r Aelodau sy'n mynychu'r cyfarfod
- Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb
- Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb ar gyfer eitemau penodol y mae unrhyw Aelod neu swyddog yn ymwybodol ohono
- Cymeradwyo a chadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor/Bwrdd fel cofnod cywir
- Ystyried materion sy'n codi
- I adolygu'r log gweithredu sy'n rhoi manylion yr holl gamau gweithredu a godwyd mewn cyfarfodydd blaenorol

- I nodi a thrafod fel cofnodion priodol o unrhyw bwyllgor perthnasol
- I ystyried materion penodol neu ddogfennau sy'n ymwneud â gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru
- I ystyried unrhyw fusnes arall
- Cadarnhau lleoliad, dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

10. Protocol ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru a gynhelir yn gyhoeddus

Mae'r canlynol yn amlinellu protocol i'w ddilyn ar gyfer pob cyfarfod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru a gynhelir yn gyhoeddus.

11. Rhoi cyhoeddusrwydd i'r cyfarfodydd

Bydd y sianelau cyfathrebu canlynol yn cael eu defnyddio i roi cyhoeddusrwydd i bob cyfarfod a gynhelir yn gyhoeddus.

- Hysbysiadau e-bost i randdeiliaid
- Gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru – crynodeb newyddion
- Dewisiadau cyfryngau cymdeithasol Cyfoeth Naturiol Cymru

Bydd gwybodaeth ar gael i gadarnhau amser, lleoliad a fformat ar gyfer y cyfarfod gyda dolen i'r agenda cytunedig. Bydd papurau ar gael ar y wefan 5 diwrnod cyn y cyfarfod a gofynnir i'r mynychwyr hysbysu'r tîm Ysgrifenyddiaeth o'u presenoldeb arfaethedig yn y cyfarfod at ddibenion cynllunio, o leiaf 2 ddiwrnod gwaith cyn y cyfarfod. Dibynnu ar y lleoliad, efallai rhaid gosod terfyn ar nifer y mynychwyr.

12. Agenda/papurau

Bydd yr Agenda ar gael ar y wefan i gyd-fynd â datganiad i'r wasg a bydd yr holl papurau perthnasol ar gyfer y cyfarfod ar gael ar y wefan 5 diwrnod cyn y cyfarfod. Ni fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu copïau caled o'r papurau ar gyfer mynychwyr cyhoeddus naill ai drwy'r post neu yn y cyfarfod.

13. Sylwadau agoriadol y Cadeirydd

Y Cadeirydd fydd yn agor pob cyfarfod a gynhelir yn gyhoeddus, gan groesawu pawb yn ddwyieithog a bydd y Cadeirydd yn egluro bod hwn yn gyfarfod a gynhelir yn gyhoeddus yn hytrach na chyfarfod cyhoeddus ac ni ellir ystyried unrhyw gwestiynau o'r cyhoedd yn ystod y cyfarfod. Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau sut y gellir cyflwyno cwestiynau sy'n ymwneud ag eitemau ar yr agenda, drwy'r Ysgrifenyddiaeth. Bydd unrhyw gwestiynau a godir ar y diwrnod yn cael eu cydnabod o fewn 2 ddiwrnod gwaith, ac fe'u dyrennir i'r aelod perthnasol o'r tîm Gweithredol a cheir ymateb o fewn 20 diwrnod gan yr aelod perthnasol o'r tîm Gweithredol.

Os bydd aelod o'r cyhoedd yn amharu ar y trafodion ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn eu rhybuddio am eu hymddygiad. Os bydd hyn yn parhau bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r person adael y cyfarfod. Os bydd y person yn gwrthod gadael, bydd y Cadeirydd yn atal y cyfarfod hyd nes bydd yr aflonyddwch wedi'i ddatrys.

Wrth drafod eitem ar yr agenda, os daw'n amlwg y byddai'n fwy priodol i drafod y mater mewn sesiwn breifat, gall y Bwrdd wneud cynnig i wneud hynny.

14. Ymddygiad y Bwrdd

Pan fydd y Bwrdd yn cyfarfod yn gyhoeddus bydd yn arbennig o bwysig i holl aelodau'r Bwrdd gefnogi'r Cadeirydd wrth orfodi'r gofynion canlynol:

- Gwneir yr holl sylwadau/trafodaethau drwy'r Cadeirydd
- Bydd aelodau'r Bwrdd yn dangos eu bod am gyfrannu a bydd y Cadeirydd yn gwahodd Aelodau Bwrdd unigol i wneud eu cyfraniad
- Dim ond un aelod o'r Bwrdd i siarad ar y tro
- Mae'r sylwadau a'r drafodaeth wedi'u cyfyngu i'r eitem agenda
- Bydd y Cadeirydd yn cloi pob eitem ar yr agenda yn glir gyda chrynodeb o'r drafodaeth; yn cadarnhau unrhyw gamau i'w gweithredu a'r penderfyniadau a gymerwyd.

15. Cofnodi'r cyfarfod

Ni chaniateir defnyddio camerâu nac offer recordio yng nghyfarfodydd o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ac eithrio drwy ganiatâd ymlaen llaw gan Gadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru, drwy'r Ysgrifenyddiaeth.

16. Cyfieithu

Bydd cyfieithydd ar gael ar gyfer cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg drwy gydol y cyfarfod pan fo angen.

17. Ymgysylltu â mynychwyr

Aelodau'r Bwrdd a'r tîm gweithredol i ymgysylltu â'r mynychwyr yn dilyn cau'r cyfarfod a gynhaliwyd yn gyhoeddus.

1. [\[1\]](#)o: Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydliad) 2012